Rhif: **WG17169**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru – materion rhifedd a llythrennedd

Dyddiad cyhoeddi: **Tachwedd 2012**

# Gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru – materion rhifedd a llythrennedd

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob corff sy’n gysylltiedig â hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru sy’n arwain at Statws Athro/Athrawes Cymwysedig (SAC), sefydliadau addysg uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (UCET Cymru), Estyn, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, undebau athrawon a darlithwyr, ysgolion a gynhelir a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Rhydd y ddogfen hon grynodeb o’r ymatebion a gafwyd ac adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion i ddisodli Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006, fel y’u diwygiwyd.<br><br>Roedd y cynigion yn cynnwys gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru i gynnwys gofynion statudol ar gyfer asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion gan gynnwys y gofyniad i addysgu llythrennedd a rhifedd fel rhan annatod o gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Roedd y cynigion hefyd yn cynnwys nifer o newidiadau ategol a diwygiadau diweddaru. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Helen David<br>Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6085<br>e-bost: ITTRequirementsconsultation@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau |

ISBN digidol 978 0 7504 8297 4
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17169

# Cynnwys


1. Cyflwyniad a throsolwg 1

2. Y broses ymgynghori 3

3. Sylwadau ar gwestiynau'r ymgynghoriad ynghyd â'n hymatebion a'n hadborth 4

4. Sylwadau cyffredinol 23

5. Y camau nesaf 29

Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr 30

# 1. Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i ddisodli'r meini prawf achredu statudol y mae'n rhaid i bob sefydliad achredu sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) eu bodloni.

1.2 Ar hyn o bryd, nodir y rhain ym Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (2006 Rhif 50) fel y'u diwygiwyd gan y Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 (Diwygio) 2006 (2006 Rhif 75) ("y meini prawf achredu").

1.3 Rhaid i bob darparwr sy'n darparu cyrsiau HCA sy'n arwain at SAC gael ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyn y gall CCAUC achredu sefydliad sy'n darparu HCA, rhaid iddo fodloni meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

1.4 Nodir y meini prawf presennol ym meini prawf achredu 2006 ar gyfer darparwyr HCA. Mae'r rhain yn cynnwys y Gofynion statudol ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA ("y Gofynion") sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr HCA ei wneud wrth gynnal cyrsiau HCA mewn perthynas â gofynion mynediad, hyfforddi ac asesu, rheoli'r bartneriaeth HCA ag ysgolion, a sicrhau ansawdd. Nodir y rhain yn Atodiad A i feini prawf achredu 2006.

1.5 Nid yw meini prawf achredu 2006 yn gymwys i ddarparu HCA ar sail cyflogaeth (ar raglenni megis y Rhaglen Athrawon Graddedig). Mae hyn yn golygu nad yw'r Gofynion yn gymwys i raglenni HCA ar sail cyflogaeth ychwaith. Ar hyn o bryd, llywodraethir HCA ar sail cyflogaeth gan Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) (“Cynllun 2011”), sy'n cynnwys gofynion ar gyfer darparu HCA ar gyfer hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn ei atodiad.

1.6 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig cyflwyno'r newidiadau canlynol i'r Gofynion er mwyn cwmpasu materion llythrennedd a rhifedd:

(a) Yn yr adran gofynion mynediad, newid y safon mynediad ofynnol o fod yn gyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg, yn ogystal â mewn pwnc gwyddoniaeth ar gyfer ymgeiswyr cynradd, i un sy’n gyfwerth â gradd B TGAU;

(b) Cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion mynediad a fyddai’n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu hasesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy’n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, i safon sydd o leiaf yn gyfwerth â’r lefel mynediad ofynnol;

(c) Cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu sy’n ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd personol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu hasesu’n rheolaidd a chywir drwy gydol eu hyfforddiant; a nodi pan fo hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod wedi cyflawni’r holl Safonau SAC,

bod yn rhaid i ddarparwyr allu bodloni eu hunain fod y safonau yn (b) uchod yn cael eu cyflawni o hyd;

(d) Cyflwyno darpariaeth newydd yn yr adran gofynion hyfforddiant ac asesu a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd a rhifedd sy’n briodol i’r cyfnod a’r pwnc a astudir, a bod hyn yn rhan ganolog o gyrsiauhyfforddiant.

1.7 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnig rhai newidiadau ategol sydd â’r nod o gysoni rhai elfennau o HCA er mwyn helpu i sicrhau y gall y newidiadau sy’n cynnwys materion llythrennedd a rhifedd weithio ar sail gyffredin. Byddai'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr HCA sicrhau bod:

(a) rhaglenni hyfforddiant wedi’u llunio i ddarparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddiant y flwyddyn i bob hyfforddai – byddai hynny am gyfnod gofynnol o hyfforddiant dynodedig mewn ysgol, dan arweiniad prifysgol, ac ar wahân i’r amserlen addysgu;

(b) cynyddu’r cyfnod y mae athrawon dan hyfforddiant yn ei dreulio ar raglenni HCA cynradd ôl-raddedig yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion o18 wythnos i o leiaf 24 wythnos;

(c) diwygio’r gofynion ar gyfer hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth - fel y nodir yng Nghynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2012 - mewn ffordd debyg.

1.8 Cafodd newidiadau a diweddariadau amrywiol i feini prawf achredu 2006 eu cynnig hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Ymhlith y rhain roedd rhoi’r gorau i nodi bod darparwyr HCA yn sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni’r gofynion o ran iechyd a gallu corfforol i ddysgu.

1.9 Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai’r meini prawf diwygiedig ar gyfer achredu darparwyr HCA gyda’r gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau HCA yn dod i rym ym mis Medi 2013, mewn perthynas â mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2013/14.

## 2. Y broses ymgynghori

2.1 Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ystyried y newidiadau arfaethedig. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd â'n hymateb. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau cyffredinol nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiynau a ofynnwyd yn uniongyrchol ac ymdrinnir â'r rhain yn fanylach yn adran 4.

2.2 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Awst 2012. Cafwyd cyfanswm o 35 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cyflwynodd dau sefydliad ymateb rhannol i'r cwestiynau a ofynnwyd a dim ond sylwadau a gafwyd gan 13 o ymatebwyr - ni wnaethant ymateb i'r cwestiynau'n unigol. Cafwyd 20 o ymatebion llawn. Yn dilyn Diwrnod Agored ym Mhrifysgol Bangor lle cafodd y cynigion yn yr ymgynghoriad eu trafod â darpar ymgeiswyr i gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Prifysgol Bangor, cafwyd pum darn o ohebiaeth mewn perthynas â dau o'r cynigion. Er na chawsant eu cyflwyno'n ffurfiol fel ymateb i'r ymgynghoriad, mae'r sylwadau a wnaed yn yr ohebiaeth wedi cael eu cynnwys yn y crynodeb hwn o ymatebion.

2.3 O blith yr holl ymatebion a gafwyd, roedd pedwar am aros yn ddienw. Crynhoir y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad isod, ynghyd â'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r rhain ac adborth ar y prif themâu a'r pwyntiau allweddol a godwyd. Rhestrir yr ymatebwyr yn Atodiad A, ac eithrio'r sefydliadau a'r unigolion a oedd am i'w manylion gael eu cadw'n gyfrinachol. Ceir copïau o'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau ac unigolion a nodwyd yn Atodiad B.

2.4 Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn yr adran Addysg a Sgiliau (ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben) ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/consultations/education/?skip=1&lang=cy.

2.5 Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am eu cyfraniad.

## 3. Sylwadau ar gwestiynau'r ymgynghoriad ynghyd â'n hymatebion a'n hadborth

***Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y safon mynediad ofynnol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) mewn perthynas â'r holl hyfforddeion, sef newid o gymhwyster sydd gyfwerth â TGAU gradd C i gymhwyster sydd gyfwerth â TGAU gradd B mewn Saesneg a mathemateg (a hefyd bwnc gwyddonol yn achos yr holl ymgeiswyr addysg gynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3)?***

3.1 Roedd naw o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn ac roedd deg yn anghytuno, tra roedd un yn ansicr.

3.2 Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig o'r farn y byddai cynyddu isafswm y gofynion mynediad o fudd i godi safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn yr hirdymor. Er eu bod yn cytuno, codwyd pryderon ynghylch p'un a yw'r TGAU yn asesiad digon cywir o lythrennedd a rhifedd ac nad yw'r cysylltiad rhwng cymwysterau academaidd a gallu addysgu mor fanwl gywir ag y byddai'r defnydd o raddau TGAU yn ei awgrymu.

3.3 Wrth anghytuno â'r cynnig, codwyd y pwyntiau canlynol;

- Nid yw barnu ymgeiswyr aeddfed ar sail eu cymwysterau TGAU yn unig yn caniatáu ar gyfer ystyried unrhyw ddatblygiad neu gamu ymlaen a byddai'n methu ag asesu safonau'r unigolion ar adeg eu cais.
- Mae pryder y byddai nifer o athrawon rhagorol o bosibl yn cael eu colli drwy gyfyngu mynediad i ganlyniadau TGAU oherwydd nid cymhwyster athro o reidrwydd ond ei allu a'r gefnogaeth iddo sy'n bwysig wrth gyflawni amcanion rhifedd a llythrennedd.
- Mae lle i amau'r ddadl o blaid mwy o ofynion ym maes gwyddoniaeth. Os yw'r gofyniad o ran rhaglenni hyfforddi Cyfnod Allweddol 2/3 ar gyfer ymgeiswyr cynradd yn unig, yna ni fyddai angen i'r rheini a oedd yn dilyn rhaglenni i addysgu gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 3/4 gael y radd uwch, a fyddai'n anodd ei gyfiawnhau. Byddai hyn hefyd yn arwain at lai o ymgeiswyr o bosibl ar gyfer rhaglenni cynradd.
- Y lleihad yn nifer yr ymgeiswyr posibl a'r effaith ar amrywiaeth ymgeiswyr oherwydd efallai na fydd llawer o ymgeiswyr, yn enwedig y sawl sy'n newid gyrfa a myfyrwyr aeddfed, yn bodloni isafswm y gofynion hyn ond gallent fod yn athrawon dosbarth hynod effeithiol.
- Ni all disgyblion sy'n dilyn cwrs Gwyddoniaeth TGAU sylfaen gael gradd B; felly, ni all y grŵp hwn o ddarpar ymgeiswyr gael mynediad i'r proffesiwn addysgu o ganlyniad i'w gallu canfyddedig a phenderfyniadau cysylltiedig a wneir drostynt yn 14 oed, waeth beth fo'u cyflawniadau yn y dyfodol.
- Dylai unrhyw newidiadau mewn gofynion gwmpasu isafswm y gofynion mynediad ar gyfer cymwysterau iaith Gymraeg sy'n gymwys i hyfforddeion HCA sydd am ddilyn rhaglenni cyfrwng Cymraeg.

- Os caiff y cynigion eu gweithredu, teimlwyd y dylid trefnu i ymgeiswyr sefyll profion amgen wrth ymgeisio.
- Ni fyddai ymgeiswyr presennol wedi bod yn ymwybodol o'r gofynion pellach.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.4 Mae llawer o'r sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar b'un a yw'r radd TGAU a gyflawnir yn asesiad digon cywir o alluoedd addysgu pob hyfforddai, neu p'un a fyddai cynyddu isafswm y gofynion mynediad yn lleihau nifer y darpar ymgeiswyr HCA, gan o bosibl gyfyngu ar fynediad i'r sawl sy'n newid gyrfa a myfyrwyr aeddfed.

3.5 Ar hyn o bryd mae isafswm y gofyniad mynediad statudol ar gyfer cyrsiau HCA yn gyfwerth â gradd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg (ac mewn gwyddoniaeth ar gyfer cyrsiau cynradd). Caiff Darparwyr HCA bennu safonau unigol uwchlaw'r lefel ofynnol, ac ar hyn o bryd ar gyfer Saesneg TGAU mae gofyniad cyffredinol bron ymhlith Darparwyr HCA yng Nghymru am yr hyn sy'n gyfwerth â Gradd B TGAU ar gyfer cael mynediad i gwrs. Gwelwyd hyn mewn sawl achos ar gyfer mathemateg hefyd, yn enwedig ar gyfer HCA cynradd.

**3.6 O ystyried pa mor bwysig yw hi i godi safonau llythrennedd a rhifedd, credwn y bydd cynyddu isafswm y gofyniad mynediad o'r hyn sy'n gyfwerth â gradd C TGAU i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn Saesneg a mathemateg yn golygu bod y broses recriwtio yn canolbwyntio ar ymgeiswyr sydd â chymwysterau mynediad lefel uwch. Cytunwn nad yw cwmpas y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i wneud athro rhagorol yn gyfyngedig i gyrhaeddiad addysgol ar y lefel hon yn unig, ond disgwyliwn i ddarpar hyfforddeion allu dangos sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gofyniad yn galluogi darparwyr HCA i gynnig prawf cyfwerthedd i ymgeiswyr eithriadol na fydd ganddynt efallai'r radd ofynnol a fydd yn fodd iddynt ddangos eu bod yn meddu ar safon sy'n gyfwerth â gradd B TGAU.**

3.7 Mae'r cynnig i gynyddu isafswm y gofynion mynediad i Radd B mewn gwyddoniaeth ar gyfer ymgeiswyr cyrsiau cynradd er cysondeb wedi codi materion ynghylch Gwyddoniaeth TGAU sylfaen a phryder ynghylch y gofynion ar gyfer ymgeiswyr rhaglenni HCA cynradd a'r gofynion ar gyfer ymgeiswyr rhaglenni TAR uwchradd yn y pynciau gwyddoniaeth.

3.8 Codwyd y mater ynghylch gwyddoniaeth TGAU sylfaen gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe yn benodol a nododd na all disgyblion sy'n dilyn Gwyddoniaeth TGAU sylfaen gael gradd B gan mai Gradd C yw'r dyfarniad uchaf y gellir ei gyflawni. Mae hyn hefyd yn codi'r mater y byddai angen i ymgeiswyr rhaglenni cynradd fod wedi cyflawni'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, tra na fyddai isafswm y gofyniad mynediad yn gymwys i ymgeiswyr cyrsiau TAR pwnc gwyddonol penodol uwchradd. Fodd bynnag, mae gwyddoniaeth ar lefel gynradd yn dal i fod yn bwnc craidd. Nid oes unrhyw ofynion o'r fath ar gyfer y rheini sy'n cael hyfforddiant athrawon uwchradd mewn pwnc gwyddoniaeth am fod angen i ddarpar fyfyrwyr ddangos bod ganddynt wybodaeth addas am bwnc mewn arbenigedd gwyddoniaeth ar lefel gradd.

3.9 Fodd bynnag, cydnabyddwn, o ystyried y ffocws clir ar wella safonau llythrennedd a rhifedd, nad yw'r ddadl i gynyddu isafswm y gofyniad mynediad i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn gwyddoniaeth er cysondeb yn ddigon cryf. **Felly, bydd isafswm y gofyniad mynediad ar gyfer gradd C TGAU mewn gwyddoniaeth yn parhau i ymgeiswyr rhaglenni HCA cynradd**.

3.10 O ran ehangu mynediad i unigolion megis myfyrwyr aeddfed a/neu'r sawl sy'n newid gyrfa sydd heb y graddau TGAU gofynnol, byddem yn rhagweld y bydd Darparwyr HCA mewn sefyllfa i gynghori ymgeiswyr ar b'un a oes dulliau o brofi cyfwerthedd a all gael eu mabwysiadu cyn gwneud cais.

3.11 Ar y cyd â Darparwyr HCA, byddwn hefyd yn ystyried dichonoldeb cyflwyno gofyniad amgen, lle nad yw'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU ofynnol wedi'i gyflawni ond lle mae'r ymgeisydd wedi astudio cymhwyster lefel uwch pellach mewn Saesneg neu fathemateg. Byddwn yn ystyried p'un a ellid rhoi hyn ar waith yn dilyn ymgynghoriad pellach â Darparwyr HCA.

***Cwestiwn 2: Ydych chi’n cytuno y dylid cynnwys y gofynion ychwanegol arfaethedig sy’n ymwneud â’r asesiad cychwynnol o sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion unigol, parhad yr asesiad trwy gydol eu rhaglen hyfforddiant, a’r gofyniad bod darparwyr HCA yn gwneud yn siŵr bod y safonau gofynnol yn dal i gael eu bodloni pan asesir yr hyfforddeion yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwys (SAC)?***

3.12 Roedd 13 o'r 17 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig. Roedd dau yn anghytuno ac nid oedd dau yn siŵr.

3.13 Tynnodd yr ymatebion a gafwyd gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig sylw at y canlynol;

- Mae hyn yn bwysicach na'r gofynion ynghylch graddau ar gyfer cymwysterau sy'n gyfwerth â TGAU, oherwydd gall fod yn asesiad llawer mwy priodol, clir a defnyddiol.
- Mewn llawer o sefydliadau mae asesu safonau llythrennedd a rhifedd unigolion sy'n dilyn y cwrs HCA eisoes yn arfer safonol ar y cam mynediad ac yn broses barhaus;
- Byddai angen ystyried y broses weithredu'n ofalus ac ni ddylai gael effaith niweidiol ar astudio pynciau eraill na meysydd dysgu a datblygu ar raglenni cynradd na chymhwyso addysgeg gwybodaeth pwnc ar raglenni uwchradd.
- Yn ddelfrydol, dylai asesiadau gael eu cynllunio ar sail Cymru gyfan a chael eu hariannu a'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr.
- Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y gwaith cydweithredol a wneir ar hyn o bryd gan Ddarparwyr HCA yng Nghymru i ddatblygu dull cyffredin o asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion HCA yn werthfawr iawn.
- Mae gwaith asesu parhaus hefyd yn helpu darparwyr i nodi diffygion yn sgiliau hyfforddeion a rhoi cymorth i'r sawl sydd ei angen. Dylid sicrhau

bod cysylltiad agos rhwng cynnwys y gwaith asesu parhaus hwn a'r sgiliau sydd eu hangen ar hyfforddeion i addysgu'n llwyddiannus.

- Mae teimlad cryf y dylai cynnal profion ar y cam mynediad fod yn ddewis amgen i newid y gofynion mynediad TGAU i Radd B.

3.14 O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr am y cynnig, gwnaed y sylwadau canlynol;

- Byddai'n ddefnyddiol cael diffiniad pendant o rifedd a llythrennedd. Os cyflwynir y gofyniad hwn yna mae'n hanfodol bod y sgiliau hyn yn cael eu disgrifio'n well er mwyn sicrhau chwarae teg o ran darpariaeth HCA a disgwyliadau tebyg o ran safonau mynediad uchel.
- Er y byddai profion mynediad a phrofion ymadael yn golygu bod modd mesur sgiliau rhifedd gweithredol personol, nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod gwell tueddiad tuag at addysgu rhifedd. Mae pryder y byddai defnyddio'r fath brofion yn wrthgynhyrchiol ac y gallai annog myfyriwr i ond lwyddo prawf mewn ffyrdd annatod yn hytrach nag annog hyfforddai i ddangos ymrwymiad i ddatblygu sgiliau rhifedd personol.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy eglur ynghylch yr hyn sy'n gyfwerth â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol (na fydd efallai'n gwbl gyfwerth â graddau B neu fwy mewn Saesneg a mathemateg TGAU.
- Er bod darparwyr HCA yng Nghymru eisoes wedi cymryd cyfrifoldeb am feithrin dealltwriaeth gyffredin o brofion i ymgeiswyr, nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau a byddai cymorth gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori prosesau'n llawn yn cael ei werthfawrogi (fel sy'n digwydd yn Lloegr). Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth fel bod profion mynediad yn cael eu gweinyddu'n ganolog.
- Yn achos hyfforddeion ôl-raddedig sy'n gwneud cyfran sylweddol o'u cwrs yn yr ysgol, prin fydd y cyfleoedd i feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd personol yn ystod darpariaeth prifysgol.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.15 Ceir darpariaethau statudol presennol yn y Gofynion sy'n ymwneud ag asesu sgiliau personol hyfforddeion ym maes llythrennedd a rhifedd ar y cam mynediad. Rhaid i bob darparwr HCA - er enghraifft - fodloni ei hun y gall pob ymgeisydd ddarllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Saesneg llafar ac ysgrifenedig.

3.16 Mae'n amlwg bod Darparwyr HCA eisoes yn asesu sgiliau llythrennedd ymgeiswyr ar y cam mynediad ac, mewn rhai achosion, eu sgiliau rhifedd, gyda rhai Darparwyr hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon cyn cynnig lle. Mae Darparwyr HCA hefyd yn asesu llythrennedd a rhifedd hyfforddeion drwy gydol eu cwrs er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cyrraedd a'u cynnal.

3.17 Er bod yr asesiadau hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall, mae'r Darparwyr HCA yn cydweithredu er mwyn datblygu dull cyffredin o asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Cytunwn â'r sylw a wnaed gan Gyngor Addysgu Cyffredinol

Cymru sef y bydd y gwaith cydweithredol sy'n mynd rhagddo gan Ddarparwyr HCA yng Nghymru i ddatblygu dull cyffredin o asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion HCA yn werthfawr iawn. Mae'r sefyllfa yn wahanol i Loegr oherwydd gall y nifer lai o Ddarparwyr HCA yng Nghymru weithio ar sail gydweithredol, agosach i ddatblygu dull cyffredin o gynnal profion. Gyda llai o leoedd HCA ar gael a llai o ymgeiswyr yn gwneud cais o gymharu â Lloegr, nid ystyrir ei bod yn briodol canoli'r profion sgiliau fel yr hyn a wneir yn Lloegr.

**3.18 Felly, bwriadwn gynnwys gofynion ychwanegol arfaethedig sy'n ymwneud â'r asesiad cychwynnol o sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion unigol, parhad yr asesiad trwy gydol eu rhaglen hyfforddiant, a'r gofyniad bod darparwyr HCA yn gwneud yn siŵr bod y safonau gofynnol yn dal i gael eu bodloni pan asesir yr hyfforddeion yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwys (SAC). Daw'r gofynion hyn i rym ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2013/14**

3.19 Er ein bod yn cydnabod y pwyntiau a godwyd lle mae rhai ymatebwyr wedi tanlinellu y dylai'r asesiadau gael eu cynllunio ar sail Cymru gyfan, a'u hariannu a'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru, credwn mai'r Darparwyr HCA sy'n gweithio ar sail gydweithredol a fyddai yn y sefyllfa orau i gynllunio a gweithredu asesiadau a fyddai'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol.

***Cwestiwn 3: Yn gysylltiedig â'r gofynion ychwanegol arfaethedig sy'n ymwneud â'r asesiad o sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion unigol, rydym wedi dweud y byddai'n rhaid i'r rhain fod ar lefel safon academaidd sydd gyfwerth ag isafswm y gofyniad cymhwyster mynediad a nodir yng nghwestiwn 1; a hefyd y byddai'n rhaid i'r sgiliau fod yn sgiliau gweithredol a fyddai'n gymwys i'w defnyddio mewn cyd-destun addysgu proffesiynol. Ydych chi'n cytuno â hynny?***

***Byddem hefyd yn croesawu sylwadau ar sut y gallai'r cyfeiriad at sgiliau gweithredol gael ei ddisgrifio'n ymarferol yn y gofynion hyn.***

3.20 Cafwyd sylwadau gan 23 o ymatebwyr ar y cynnig hwn. Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno â'r hyn a gynigiwyd, roedd dau yn anghytuno a nododd wyth nad oeddent yn siŵr.

3.21 Cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud gan rai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig;

- Mae cymwysterau sgiliau hanfodol yn fodd i asesu sgiliau gweithredol.
- O ran gofyn am sylwadau ar sut y gallai'r cyfeiriad at sgiliau gweithredol gael ei ddisgrifio'n ymarferol a'i roi ar waith mae'n bryder nad yw'r gwaith sylfaenol hwn wedi cael ei wneud, nac wedi bod yn destun ymgynghoriad, cyn cyhoeddi'r ddogfen hon. Ymddengys mai'r hyn a gynigir yw newid i ofynion i ddangos lefel o sgiliau llythrennedd a rhifedd gweithredol heb fod gan y llywodraeth farn gadarn a chydlynol ar sut y caiff hyn ei gyflawni.

- Rhaid i'r safonau fod yn gwbl glir, yn gyson ledled Cymru ac yn ymarferol - mewn geiriau eraill, sgiliau a roddir ar waith yn eu cyd-destun, sef y gallu i addysgu.
- O ran sut y gallai'r cyfeiriad at sgiliau gweithredol gael ei ddisgrifio'n ymarferol a'i roi ar waith, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai darparwyr HCA yng Nghymru gael eu gwahodd gan Lywodraeth Cymru i gydweithio i ddatblygu dull cyffredin o weithredu yn hyn o beth.
- Ym marn UCU Cymru, mae'n hanfodol sicrhau bod gan hyfforddeion y lefel angenrheidiol o sgiliau rhifedd a llythrennedd a'u bod yn cael eu cynnal. Cred UCU Cymru hefyd fod yn rhaid i hyfforddeion gael cymorth, hyfforddiant ac arweiniad pellach, os oes angen, er mwyn cynnal y safonau rhifedd a llythrennedd hyn. Er bod UCU Cymru o blaid y gofynion ychwanegol, mae gennym bryderon ynghylch y llwyth gwaith cynyddol posibl a fydd yn wynebu staff prifysgol sy'n gorfod bodloni'r gofynion ychwanegol hyn.
- Dylai'r sgiliau gweithredol perthnasol gael eu hasesu yng nghyd-destun y pwnc. Er enghraifft, bydd angen i rywun sy'n addysgu ffiseg feddu ar well mathemateg na rhywun sy'n addysgu hanes.

3.22 Ni wnaeth y ddau ymatebydd a oedd yn anghytuno sylwadau pellach ynghylch y cynnig. Tynnodd yr ymatebwyr hynny a nododd nad oeddent yn siŵr sylw at y canlynol;

- Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad clir o ystyr 'sgiliau gweithredol' ac, felly, mae hyn yn anodd ei asesu a'i ddatblygu. At hynny, o ran yr awgrym y dylai sgiliau llythrennedd a rhifedd personol unigolion fod ar lefel 'B' TGAU, mewn cyd-destun gweithredol, oni fyddai profi'r gallu hwnnw yn fwy ymarferol a rhesymol na mabwysiadu gradd 'B' TGAU ofynnol ar y cam mynediad yn gyffredinol.
- Mae'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn awgrymu nad oes gan Lywodraeth Cymru ddiffiniad clir o sgiliau gweithredol na sut y dylent gael eu rhoi ar waith. Nid yw asesu llythrennedd a rhifedd (ond llythrennedd yn arbennig) yn dasg hawdd. Felly, cyn 'codi'r safon academaidd' ac yna bennu profion ychwanegol, byddai'n fwy buddiol sicrhau bod rhywfaint o eglurder o ran diffyg sgiliau canfyddedig athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cymwysedig.
- Mae'n anodd pennu llythrennedd gweithredol mewn cyd-destun proffesiynol. Gellir ystyried ei fod yn golygu meddu ar wybodaeth gadarn am bwnc a all gael ei llywio a'i thrawsnewid er mwyn bodloni gofynion gwahanol y proffesiwn.
- Dewiswyd yr opsiwn 'ddim yn siŵr' yn bennaf oherwydd y diffyg eglurder ynghylch yr hyn sy'n cyfateb i 'sgiliau gweithredol' a 'sgiliau llythrennedd a rhifedd personol'. Gobeithir y bydd y diffiniadau hyn yn eglur ar ôl yr ymgynghoriad.
- Mae aelodau UCET Cymru o'r farn bod rhan olaf y cwestiwn hwn yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch bwriad sgiliau gweithredol. Ni fyddai llythrennedd a rhifedd gweithredol yr un peth ym

mhob maes pwnc a chyd-destun; mae angen i ddisgwyliadau gael eu teilwra i'r pwnc a'r cyd-destun. Rhaid i ni gydnabod y gwahaniaethau hyn yn y modd y caiff athrawon y dyfodol eu recriwtio a'u hyfforddi.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.23 Rydym wedi nodi'r sylwadau o blaid ac yn erbyn y cynnig. O bwyso a mesur popeth, credwn, mewn perthynas â'r gofynion ychwanegol arfaethedig o ran asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion unigol, y byddai angen i'r rhain fod ar safon academaidd sy'n gyfwerth ag isafswm y gofyniad cymhwyster mynediad; a hefyd y byddai'n rhaid i'r sgiliau fod yn sgiliau gweithredol a fyddai'n gymwys i'w defnyddio mewn cyd-destun addysgu proffesiynol.

3.24 Nodwn bryderon ymatebwyr o ran y diffiniad o sgiliau gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, a bod y diffyg eglurder yn hyn o beth wedi peri ansicrwydd ymhlith nifer o ymatebwyr ynghylch p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig fel y'i nodwyd.

3.25 Byddwn yn gweithio gyda'r Darparwyr HCA a chydweithwyr yn fewnol yn yr Adran Addysg a Sgiliau i roi ystyriaeth ofalus i sut y gall y sgiliau hyn gael eu nodi ymhellach. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar y Meini Prawf diwygiedig ar gyfer achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a'r Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA maes o law a chydnabyddwn y bydd angen i ganllawiau pellach ar y Gofynion diwygiedig fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd a sut y gall y Gofynion gael eu rhoi ar waith.

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y gofyniad ychwanegol arfaethedig sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol i fyfyrwyr HCA ar addysgu llythrennedd a rhifedd, mewn modd sy'n briodol ar gyfer y cyfnod a'r pwnc sy'n cael ei astudio ac fel rhan annatod o gyrsiau hyfforddi?***

3.26 O'r 19 o ymatebwyr a roddodd ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 17 yn cytuno â'r cynnig, roedd un yn anghytuno a nododd un nad oedd yn siŵr. Ni wnaeth yr unigolyn a oedd yn anghytuno sylw pellach. Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, gwnaed y sylwadau canlynol;

- Mae hyn yn hanfodol fel bod pob athro yn dod yn gyfrifol am ddatblygu llythrennedd a rhifedd yn hytrach na'i fod yn rhywbeth yr ystyrir ei fod ond yn gysylltiedig ag athrawon Saesneg a mathemateg.
- Bydd y cynigion i sicrhau hyfforddiant gorfodol i fyfyrwyr HCA mewn llythrennedd a rhifedd o fudd. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried mai diwedd y broses yw'r hyfforddiant hwn. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, dylai athrawon ar bob lefel ac â phob math o brofiad fod yn gallu cael hyfforddiant yn barhaus.
- Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol bryderon am yr hyn a allai gael ei ddisodli mewn rhaglenni TAR sydd eisoes yn llawn iawn.
- Os bydd hyn yn mynd law yn llaw â llai o astudiaethau prifysgol, efallai y bydd hyfforddiant arall yn dioddef. Mae'n hanfodol bod sefydliadau yn cael

amser i hyfforddi myfyrwyr o ran eu dealltwriaeth o lythrennedd a rhifedd ar sail addysgeg a'i bod yn cael ei datblygu ar y cyd â'u sgiliau personol.

- Bydd hyn yn helpu i godi safonau yn y disgyblaethau hyn yn ogystal â thanlinellu eu pwysigrwydd i athrawon dan hyfforddiant, athrawon sy'n ymarfer, rhieni a disgyblion.
- Cytunwn â'r datganiad hwn a gwerthfawrogwn fod y defnydd o'r ymadrodd 'Yn briodol i'r cyfnod a'r pwnc' yn golygu bod modd ei ddehongli'n wahanol.
- Byddai llawer o'n haelodau yn hoffi gweld cyfeiriad penodol at hyfforddiant wrth addysgu darllen yn y cyd-destun hwn, sydd hefyd yn briodol i'r cyfnod.

3.26 Roedd yr ymatebydd a nododd nad oedd yn siŵr am y cynnig yn cytuno y dylai unrhyw ofyniad ychwanegol fod yn briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir ond nododd hefyd;

> 'Fodd bynnag, ni ddylai fod angen i bob athro gael ei hyfforddi ym maes addysgu llythrennedd a rhifedd. Mae addysgu llythrennedd a rhifedd yn faes arbenigol iawn ac felly byddai hyfforddi pob myfyriwr HCA i addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yn cymryd cyfran anghyfiawn o fawr o'r cwrs TAR. Dylai pob athro gael ei hyfforddi i allu adnabod myfyrwyr sy'n cael problemau yn y meysydd hyn ac yna gael y cymorth priodol ar eu cyfer. Yn ail, ni ddylid defnyddio amser athrawon mewn pynciau lle mae prinder i'w hyfforddi i addysgu rhywbeth y tu hwnt i'w harbenigedd, waeth pa mor bwysig ydyw. Mae'r cyrsiau TAR eisoes yn rhy fyr felly mae angen pwyllo cyn ychwanegu gofyniad arall at gyrsiau hyfforddi.’

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.27 Rydym yn cydnabod bod mwyafrif llethol o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig a bwriadwn fwrw ati i gynnwys y gofyniad ychwanegol arfaethedig o ran hyfforddiant gorfodol myfyrwyr HCA wrth addysgu llythrennedd a rhifedd, sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir ac sy'n ffurfio rhan annatod o'r cyrsiau hyfforddi.

3.28 Nodwn y sylw a wnaed o ran yr amser sydd ar gael o fewn y cwrs TAR ar gyfer hyfforddiant ychwanegol a ph'un a gaiff hyn effaith ar feysydd eraill o hyfforddiant a gwmpesir drwy gydol y rhaglen TAR. Bwriadwn ystyried y pwynt hwn ymhellach pan fyddwn yn cyhoeddi canllawiau ar y Gofynion diwygiedig.

***Cwestiwn 5: Ydych chi’n cytuno y dylid cyflwyno gofyniad bod yn rhaid i’r holl ddarparwyr HCA ddylunio rhaglenni hyfforddiant sy’n darparu o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi dynodedig mewn ysgol, ac a arweinir gan brifysgol, ar wahân i’r amserlen addysgu, a hynny yn ystod pob blwyddyn academaidd (pro-rata ar gyfer cyrsiau rhan-amser neu fodiwlar)?***

3.29 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 20 o ymatebwyr, gyda 12 yn cytuno, un yn anghytuno a saith yn nodi nad oeddent yn siŵr.

3.30 O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud:

- Mewn egwyddor mae hwn i'w groesawu. Bydd mwy o amser ymarferol gwirioneddol mewn hyfforddiant mewn ysgol o fudd wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Y peth pwysig yw sicrhau bod hyn yn gydnaws â gofynion presennol y cwrs. Os ychwanegir hyfforddiant at y cwrs drwy hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a hyfforddiant mewn ysgol yna mae'n rhaid i'r pwysau y mae hynny'n ei roi ar elfennau eraill o'r broses HCA gael ei ystyried.
- Mae cytuno â'r cynnig hwn yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a'r hyfforddiant dynodedig mewn ysgol o fath ac ansawdd addas a'i fod yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn gadarn.
- Cytuno y bydd unrhyw gam i gynyddu'r cymorth a'r hyfforddiant a roddir i athrawon dan hyfforddiant ond o fudd iddynt yn y dyfodol...nid yw mwy o oriau o hyfforddiant o reidrwydd yn golygu gwell canlyniadau, felly rhaid i unrhyw hyfforddiant ychwanegol fod yn berthnasol ac yn benodol.
- Cytunwn â'r gofyniad hwn ar yr amod bod yr hyfforddiant y cyfeirir ato yn cwmpasu'r holl hyfforddiant proffesiynol a gynigir (gan gynnwys llythrennedd a rhifedd).
- Mae'n bwysig bod yr hyfforddeion yn cael digon o amser i feithrin gwybodaeth am bwnc ac addysgeg yn briodol.

3.31 Nodwyd y canlynol gan yr ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig;

- Fel gofyniad sylfaenol, mae hwn yn rhy isel. Er y gall isafswm o 60 diwrnod helpu i ddiogelu Profiad mewn Prifysgol (UBE) rhag erydu ymhellach, mae'n hanfodol bod yr UBE yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ymarferwyr myfyriol, a all feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd o ansawdd uchel fel rhan o brofiadau dysgu effeithiol ar draws y cwricwlwm. Cefnogir y fath ddatblygiad ym maes addysgeg gan UBE penodol sy'n sicrhau bod ymgysylltiad ymddiddanol â datblygiad proffesiynol ym maes Profiad mewn Ysgol (SBE). Dylid ei gwneud yn ofynnol i Ddarparwyr HCA ddangos cysylltiadau effeithiol rhwng UBE ac SBE dros y rhaglen HCA.

3.32 Tynnodd y rheini nad oeddent yn siŵr am y cynnig sylw at y pwyntiau canlynol;

- Mae'n dibynnu ar yr hyn y mae 'hyfforddiant dynodedig' yn ei olygu. Mae'r rhaglen TAR yn fyr iawn beth bynnag, felly ni allaf weld sut y gallai unrhyw beth arall gael ei gyflawni'n ystyrlon yn yr amser sydd ar gael.
- Mae angen bod yn fwy eglur yma, oherwydd yn benodol mae'r hyfforddiant a ddarperir mewn ysgolion (drwy addysgu yn ogystal ag elfennau 'astudiaethau proffesiynol' presennol) eisoes yn cyfateb i hyn.
- Mae'r cwestiwn hwn wedi'i eirio'n wael, mae'n amwys ac mae angen eglurhad cyn ceisio rhoi ymateb rhesymol a chytbwys. Mae hefyd yn awgrymu, pan fo athrawon dan hyfforddiant yn addysgu mewn ysgolion, nad ydynt yn cael hyfforddiant; mae hyn yn amlwg yn wallus ac nid yw'n

adlewyrchu realiti'r sefyllfa o ran rhaglenni HCA a gweithio mewn partneriaeth.

- Nid yw ystyr na diben y cynnig hwn yn glir o gwbl. Beth yw natur yr 'hyfforddiant dynodedig'? Pan nodwch 'ar wahân i'r amserlen addysgu', a ydych yn golygu amserlen addysgu'r ysgol neu amserlen yr ysgol yn y brifysgol sy'n darparu HCA?
- Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir a yw'r 60 diwrnod yn cyfeirio at: hyfforddiant llythrennedd a rhifedd; pob hyfforddiant; neu bob elfen astudiaethau proffesiynol felly ni allwn ateb y cwestiwn gydag unrhyw sicrwydd.
- Ni theimlwn y gallwn wneud sylw ar y gofyniad hwn am fod diffyg eglurder yn y ddogfen ymgynghori.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.33 Nodwn fod y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofyniad i bob darparwr HCA gynllunio rhaglenni hyfforddi fel bod pob hyfforddai yn cael o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi dynodedig mewn ysgol, ac a arweinir gan brifysgol, ar wahân i'r amserlen addysgu ym mhob blwyddyn academaidd.

3.40 Er ein bod yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr am y cynnig, rydym yn bwriadu bwrw ati i gynnwys y gofyniad er mwyn sicrhau cysondeb mewn rhaglenni HCA cynradd ac uwchradd. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, credwn y bydd yn ategu'r amser gofynnol presennol y mae'n rhaid i hyfforddeion ei dreulio yn cael hyfforddiant mewn ysgolion ac yn golygu bod pawb yn dilyn yr un llwybr.

3.41 Nodwn y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr nad oeddent yn siŵr a ddylid cytuno â'r cynnig ai peidio, am fod diffyg eglurder yn y ddogfen ymgynghori. Bwriadwn ystyried y pwynt hwn ymhellach a byddwn yn manylu ar sut y gellir dehongli 'hyfforddiant dynodedig' pan gyhoeddwn y canllawiau ategol ar y Gofynion diwygiedig.

***Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid newid isafswm yr amser y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant pob rhaglen gynradd i ôl-raddedigion ei dreulio yn cael eu hyfforddi mewn ysgolion, a hynny o 18 wythnos o leiaf i 24 wythnos o leiaf?***

3.42 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 20 o ymatebwyr, gyda 14 yn cytuno, pump yn anghytuno ac un yn nodi nad oedd yn siŵr.

O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud;

- Mae'n bwysig bod gofynion presennol y cyrsiau yn gytbwys â'r llwythi gwaith newydd. Os caiff rhagor o amser ei dreulio mewn ysgolion rhaid ystyried hynny wrth edrych ar agweddau eraill ar y cwrs.

- Bydd yr amser ychwanegol hwn yn helpu hyfforddeion i ddatblygu a mireinio eu sgiliau addysgu ymhellach.
- Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynnig hwn, a fydd yn sicrhau cysondeb â'r trefniadau presennol ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig uwchradd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor am danlinellu y bydd hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am oruchwylio a chynorthwyo'r athro dan hyfforddiant.
- Mae 24 wythnos o hyfforddiant mewn ysgolion yn rhoi gwell cyfle i hyfforddeion feithrin y sgiliau addysgeg a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyrraedd y safonau ar gyfer SAC. Fodd bynnag, fel gyda phob math o hyfforddiant mewn ysgolion, mae angen gweithredu system sicrhau ansawdd gadarn er mwyn sicrhau bod ysgolion yn darparu gwasanaeth mentora cyson, o ansawdd uchel.
- Os caiff athrawon dan hyfforddiant 'o leiaf 60 diwrnod o weithgarwch hyfforddi dynodedig mewn ysgol, ac a arweinir gan brifysgol' ac 'o leiaf 24 wythnos' mewn ysgol ar gyfer rhaglen ôl-raddedig gynradd bydd hyn yn anochel yn gwneud y rhaglen yn hwy, a byddem yn cytuno â hynny.

3.43 Tynnodd y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig sylw at y pwyntiau canlynol;

- Nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn yn ymarferol o ystyried hyd rhaglenni presennol. Byddai'n anodd iawn sicrhau bod myfyrwyr yn cael yr holl fewnbwn angenrheidiol petaent mewn ysgolion am 24 wythnos.
- Byddai'r Brifysgol yn anghytuno oni bai bod TAR yn cael ei hehangu i 18 mis/dros ddwy flynedd fel bod yr agweddau rhyng-gysylltiedig a symbiotig ar yr hyfforddiant mor eang a manwl â phosibl; h.y. mewn ysgol a phrifysgol. Byddai hyn yn cynnwys lleihau'r rhaglen TAR Gynradd bresennol o 18 wythnos mewn prifysgol i 12 wythnos, na fyddai, wedyn, yn caniatáu digon o amser i gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o fanylder ac ehangder addysgeg gynradd a'r cwricwlwm cynradd.
- Na, nid yw hyn yn rhoi digon o amser i gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr HCA Cynradd o'r amrywiaeth o strategaethau addysgeg sy'n ofynnol i fod yn ymarferwyr Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 effeithiol...Gwyddys fod safonau llythrennedd a rhifedd yn broblem mewn ysgolion ac mae'n anodd gweld sut y bydd treulio mwy o amser mewn ysgolion yn helpu i godi safonau. Mae angen gwneud ymrwymiad gwirioneddol i raglenni HCA er mwyn meithrin partneriaeth a chydweithio ag ysgolion. Mae angen i arbenigedd y brifysgol a'r athro gwrdd yn yr ystafell ddosbarth. Mae pryder gwirioneddol ynghylch hyfforddeion yn treulio mwy o amser mewn ysgolion ac o bosibl yn gweld arferion gwael ar waith.
- Mae'r amser a dreulir gan hyfforddeion ôl-raddedig cynradd mewn ysgolion yn werthfawr ond mae profiadau ysgolion yn amrywio a byddai lleihau'r hyn a ddarperir gan brifysgol (sef yr hyn a fyddai'n digwydd yma) yn arwain at ddibynnu hyd yn oed yn fwy ar ddull gweithredu cyson a darpariaeth o ansawdd uchel mewn ysgolion partner.

3.44 Ni wnaeth yr ymatebydd a nododd nad oedd yn siŵr am y cynnig wneud unrhyw sylwadau pellach ar y pwynt hwn.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.45 Yn dilyn yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, rydym yn bwriadu cynyddu isafswm yr amser y mae'n rhaid i hyfforddeion ôl-raddedig cynradd HCA ei dreulio mewn ysgolion o 18 wythnos o leiaf i 24 wythnos o leiaf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyrsiau ôl-raddedig cynradd yn darparu'r un lefel o hyfforddiant mewn ysgolion â chyrsiau ôl-raddedig uwchradd, gan sicrhau cydraddoldeb a chysondeb ar draws cyrsiau ôl-raddedig a'i gwneud yn bosibl i weithredu'r Gofynion diwygiedig ar sail gyffredin.

3.46 Nodwn y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, yn enwedig y sawl a gododd bryderon ynghylch effaith bosibl hyn ar ddarpariaeth prifysgolion a chysondeb hyfforddiant mewn ysgolion.

3.47 Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cytuno ar ffocws adolygiad o HCA a fydd yn dechrau yn fuan. Bydd yr Adolygiad yn ystyried y materion canlynol yn bennaf;

- (i) ansawdd a chysondeb addysgu, hyfforddi ac asesu ym maes HCA; a
- (ii) strwythur cwrs a chwmpas materion.

3.48 O ran yr olaf o'r rhain, rhagwelir y bydd yr Adolygiad yn ystyried ymhellach;

- (i) y cydbwysedd rhwng hyfforddiant mewn ysgolion a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol ym maes HCA;
- (ii) hyd cyrsiau;
- (iii) a gaiff pynciau ddigon o amser neu gwmpas ar gyrsiau HCA; a
- (iv) sut mae'r sector yn ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyrsiau yn diwallu eu hanghenion.

3.49 Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn cwmpasu HCA sy'n arwain at SAC i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Bydd yn cwmpasu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig a gaiff eu darparu ar hyn o bryd gan Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau), yn cynnwys y cyrsiau dysgu o bell a ddarperir gan y Brifysgol Agored. Byddai hefyd yn cwmpasu hyfforddiant ar sail cyflogaeth mewn ysgolion o dan y Rhaglen Athrawon Graddedig. Rhagwelir y caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2013.

Byddwn yn ystyried ymhellach unrhyw ddiwygiadau i strwythur a chynnwys rhaglenni HCA, ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad.

***Cwestiwn 7: Ydych chi’n cytuno â’r cynnig na ddylid bellach gynnwys gofyniad bod yn rhaid i bob hyfforddai HCA fodloni gofynion o ran ei iechyd a’i allu corfforol i addysgu, yng ngoleuni datblygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010?***

3.50 Unwaith eto, cafwyd ymateb penodol gan 20 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Roedd 12 o ymatebwyr yn cytuno, roedd chwech yn anghytuno a nododd dau nad oeddent yn siŵr.

3.51 O blith y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud;

- Er ein bod yn cytuno y dylai unrhyw ofynion sy'n gwrthdaro â deddfwriaeth bresennol gael eu dileu, mae'n bwysig cofio bod y proffesiwn yn dal i fod yn heriol, yn gorfforol ac yn feddyliol, a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y rheini sy'n dewis ymgeiswyr.
- O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol, yn arbennig Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n briodol bod y gofyniad hwn yn cael ei ddileu o'r meini prawf achredu.
- Yn ein barn ni, ni ddylai anabledd atal rhywun rhag bod yn athro a dylai unrhyw eithriadau iechyd a diogelwch gael eu hystyried yn briodol gan osgoi eu seilio ar baramedrau mympwyol. Gobeithiwn y bydd y trefniadau newydd ar gyfer llythrennedd yn rhoi sylw priodol i'r problemau a wynebir gan fyfyrwyr â dyslecsia.
- Rydym wedi cytuno yma gan fod angen i ni fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a sicrhau ein bod yn ystyried addasiadau rhesymol lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol parhau i ddefnyddio gofynion 'Addasrwydd i Ymarfer'. Dengys profiad y gallwn wneud addasiadau rhesymol sy'n golygu y gall unigolion ddod yn athrawon effeithiol.

3.52 Nododd y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig y canlynol;

- Dylai fod yn ofynnol o hyd i hyfforddeion HCA fod yn ddigon addas i fod yn athrawon.
- Mae amgylchiadau lle gallai hyn fod yn broblematig. Fel llawer o swyddi eraill lle rydych yn gyfrifol am les eraill (h.y. eich disgyblion) mae'n bwysig bod yn addas i addysgu.
- Na. Mae hyn yn trosglwyddo cyfrifoldeb y mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn amharod i'w gyflawni i sefydliadau unigol. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae'n briodol yn broffesiynol i sicrhau bod ymgeiswyr HCA yn cael cefnogaeth i gyflawni eu dyheadau gyrfa er gwaethaf diffygion iechyd posibl; fodd bynnag, os nad oes angen i'r rhain gael eu datgan yna ni all y fath gefnogaeth gael ei rhoi.
- Yn amlwg, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb ond mae enghreifftiau diddiwedd dros y blynyddoedd yn dueddol o ddangos bod angen i ni wneud cryn ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sydd â rhai problemau iechyd a gorau po gyntaf y cawn wybod fel bod myfyrwyr yn gallu cwblhau'r rhaglen HCA yn llwyddiannus. Mae gofyniad i bennu addasrwydd i addysgu yn sicrhau bod darparwyr HCA yn gallu sefydlu systemau cymorth priodol fel y bo angen.

- Mae addysgu yn alwedigaeth heriol yn gorfforol, yn emosiynol ac yn feddyliol. Mae angen i'r rheini sydd am ei dilyn fod â'r stamina a'r iechyd sydd eu hangen.
- Nid ystyrir ei bod yn foddhaol na fyddai iechyd na gallu corfforol hyfforddeion yn cael eu hystyried ar ddechrau rhaglen, o safbwynt lles yr hyfforddeion eu hunain ac effaith niweidiol iechyd gwael/absenoldeb ar gynnydd disgyblion yn eu gofal.

3.53 Gwnaeth yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn siŵr am y cynnig y pwyntiau canlynol;

- Mae gan y sector ddyletswydd i sicrhau bod darpar athrawon a darlithwyr yn meddu ar yr iechyd a'r gallu corfforol angenrheidiol i addysgu a pheidio â rhoi plant neu bobl ifanc mewn perygl; fodd bynnag, mae hefyd am hyrwyddo ehangu mynediad a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl raglenni. Er ein bod yn cytuno â'r cwestiwn mewn egwyddor, dylid cofio bod y rheoliadau addasrwydd i addysgu yn caniatáu i rywun gael ei sgrinio ac i farn feddygol gael ei cheisio, sy'n angenrheidiol mewn nifer fach o achosion. Fodd bynnag, gall hefyd atal unigolion ag anghenion cymhleth rhag gwneud cais i ddilyn cyrsiau HCA yn y lle cyntaf...cyhyd ag y bo systemau ar waith mewn amgylchedd sy'n annog unigolion i ddatgan eu hanghenion iechyd ac anabledd penodol, sy'n arwain at roi cymorth addas a phriodol iddynt ar ffurf 'addasiadau rhesymol' yn y Brifysgol a'r ysgol, efallai y bydd yr angen i fod yn addas i addysgu fel y mae ar hyn o bryd yn cael ei ddileu.
- Er ein bod yn cydnabod bod y newid arfaethedig hwn yn gysylltiedig â chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae pryder cyffredinol ynghylch y baich cynyddol ar brifysgolion a'u hysgolion partner i ddarparu systemau cymorth priodol ar ffurf addasiadau rhesymol.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.54 Yn dilyn yr ymatebion a gafwyd, rydym yn bwriadu dileu'r gofyniad i bob hyfforddai HCA fodloni gofynion iechyd a gallu corfforol i addysgu, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004.

3.55 Fel y tanlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Adran 60 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan, ac eithrio mewn sefyllfaoedd a nodir, na ddylai cyflogwyr ofyn cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd i ymgeiswyr cyn cynnig swydd iddynt. Gall y sefyllfaoedd hyn gynnwys gofyn a fyddai ymgeisydd am swydd yn gallu cyflawni swyddogaeth sy'n rhan annatod o'r gwaith, gydag addasiadau rhesymol yn eu lle fel y bo angen.

3.56 Nodwn y sylwadau mewn ymateb i'r cynnig hwn, yn enwedig y rheini a oedd yn codi pryderon ynghylch yr effaith ar systemau cymorth priodol os nad oes angen i hyfforddeion unigol ddatgan cyflyrau iechyd posibl. O ystyried na ellir gofyn cwestiynau iechyd cyffredinol 'sy'n cwmpasu popeth' i ymgeiswyr, ni chredir ei bod yn briodol i'r Gofynion ofyn i Ddarparwyr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd yn bodloni gofynion iechyd a gallu corfforol i addysgu.

3.57 Rhaid i Ddarparwyr HCA gyflawni rhwymedigaethau statudol o ran hyfforddeion ar gyrsiau HCA o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldebau ac anableddau. Fel y nododd un ymatebydd, lle mae systemau ar waith mewn amgylchedd sy'n annog unigolion i ddatgan eu hanghenion iechyd ac anabledd penodol, byddem o blaid gweld hyn yn arwain at ddarparu cymorth addas a phriodol ar ffurf 'addasiad rhesymol'.

***Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylid gwneud newidiadau tebyg i'r rhai a nodir yng nghwestiynau 1–3 a 6 i'r Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2012?***

3.58 Cafwyd 21 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 20 yn cytuno â'r cynnig ac un yn anghytuno. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig roedd y canlynol;

- Beth bynnag fo'r canlyniad, dylid sicrhau cysondeb ar gyfer llwybrau gwaith.
- Dylai disgwyliadau fod yr un peth ar gyfer pob rhaglen HCA ond mae pryderon ynghylch sut y byddai'r gofynion hyn yn cael eu bodloni ar gyfer y rheini mewn hyfforddiant ar sail cyflogaeth, sef y Rhaglen Athrawon Graddedig a rhaglenni eraill.
- Mae angen i'r sector fod yn gyson ac yn gydlynol o ran ei ddisgwyliadau a'i arferion.
- Ceir cytundeb cyffredinol y dylai disgwyliadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd fod yn gyson ar draws llwybrau addysgu gwahanol. Fodd bynnag, bydd ymgorffori hyfforddiant llythrennedd a rhifedd mewn profiadau RhAG yn heriol o ystyried natur y rhaglen.
- Mae'n bwysig sicrhau bod safon asesu gyffredin gan bob darparwr a phob llwybr addysgu.

3.59 Nododd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig fod y newidiadau yn rhy sydyn i ymgeiswyr yn 2012 ac y byddai hynny'n annheg. Ymdrinnir â'r mater hwn ymhellach o dan Gwestiwn 9, a oedd yn ymwneud yn benodol â'r amserlen a gynigiwyd.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.60 O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, caiff diwygiadau i'r Gofynion fel y nodir yn y meini prawf achredu eu hadlewyrchu mewn diwygiadau i'r gofynion a nodwyd yn y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth.

3.61 Bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r diwygiadau i'r gofynion yn y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth yn adlewyrchu'r amserlen fel y'i nodwyd o dan Gwestiwn 9.

***Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r amserlen gweithredu arfaethedig?***

3.62 O ran mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2013/14, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y byddai'r meini prawf mynediad diwygiedig gyda'r gofynion diwygiedig yn weithredol o fis Medi 2013.

3.63 Y cwestiwn hwn a gafodd yr ymateb mwyaf. Cafwyd ymateb penodol i'r cwestiwn gan 19 o ymatebwyr, gyda naw yn cytuno â'r amserlen arfaethedig, saith yn anghytuno a thri yn nodi nad oeddent yn siŵr.

3.64 Hefyd, o dan gwestiwn 10 lle gallai ymatebwyr wneud sylwadau pellach ar yr ymgynghoriad, cafwyd naw ymateb arall yn anghytuno â'r amserlen arfaethedig. Cafwyd sawl gohebiaeth gan yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion mewn ymateb i'r amserlen weithredu arfaethedig o ran y cynnig i godi'r radd TGAU o C i B ar gyfer mynediad i Raglenni HCA. Mae'r sylwadau a gafwyd yn y darnau unigol o ohebiaeth wedi'u cynnwys o dan y sylwadau ychwanegol, gan fod yr ohebiaeth yn cyfeirio'n benodol at gynigion yr ymgynghoriad.

3.65 O blith y rheini a oedd yn cytuno â'r amserlen arfaethedig, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud

- Byddem yn cynghori Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i'r gofynion mynediad a chynnwys y cwrs yn cael eu hysbysebu'n glir gyda digon o rybudd er mwyn sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn llwyr ymwybodol o briodolrwydd eu cais.
- Mae'r amserlen yn briodol.
- Nid yw'r newidiadau yn feichus a dylai'r sefydliadau HCA allu eu gweithredu yn unol â'r amserlen ofynnol.

3.66 O'r rheini a nododd nad oeddent yn siŵr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r amserlen arfaethedig, cafwyd y sylwadau canlynol;

- Dim ond os yw Llywodraeth Cymru yn ariannu ystyriaeth briodol i brofi/meincnodi llythrennedd a rhifedd.
- Rydym yn cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer y mwyafrif o'r cynigion. Rydym eisoes wedi datgan ein gwrthwynebiad i godi'r gofyniad statudol o'r hyn sy'n gyfwerth â gradd C TGAU i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, ni chredwn y byddai cyflwyno'r gofyniad newydd hwn ym mis Medi 2013 yn deg i ymgeiswyr. Nid yw blwyddyn o rybudd i'r darpar ymgeiswyr hynny yn hir o gwbl, yn enwedig o ystyried y byddai angen iddynt ailsefyll arholiadau yn ystod blwyddyn olaf eu gradd.

3.67 Cafodd y sylwadau canlynol eu cynnwys yn yr ymatebion gan y rheini a oedd yn anghytuno â'r amserlen weithredu arfaethedig, neu fe'u codwyd yn benodol o dan Gwestiwn 10 a/neu mewn gohebiaeth i'r Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion.

- Er mwyn gweithredu unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer carfan 2013/14, byddai angen cymryd camau effeithiol o safbwynt recriwtio a chyfathrebu o fis Hydref 2012. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn caniatáu digon o amser ac felly cynigiwn y dylai unrhyw newidiadau ddigwydd o flwyddyn academaidd 2014/15 - fel bod digon o amser i ddarpar ymgeiswyr ac ysgolion sy'n ymwneud â darpariaeth addasu.
- Nid yw hyn yn caniatáu digon o amser gweithredu i ddarpar ymgeiswyr na darparwyr a gallai amharu ar y model cyflenwi athrawon yn y byrdymor.
- Mae darparwyr yn debygol o fod wedi cyhoeddi eu prosbectws, gan gynnwys gofynion mynediad, ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14. Efallai y bydd darpar ymgeiswyr da, gan gynnwys israddedigion sy'n agosáu at flwyddyn olaf eu cyrsiau ac sy'n bwriadu dilyn cwrs addysgu, a oedd yn credu bod eu graddau TGAU yn eu gwneud yn gymwys i wneud cais ond a fydd yn sylweddoli nad yw hyn yn wir mwyach.
- Mae angen mwy o amser i gyflwyno'r gofynion diwygiedig na'r hyn a gynigir. Byddwn yn cyfweld ar gyfer carfan 2013/14 o fis Hydref 2012 ac mae'n annhebygol y bydd y newidiadau gofynnol yn barod erbyn hynny. Mae hefyd yn ymddangos yn llym 'newid y drefn' ar gyfer ymgeiswyr mewn amser cymharol fyr.
- Byddai hyn yn dibynnu ar ba gynigion a oedd yn cael eu gweithredu. Petai'r cynnig i newid y gofyniad mynediad i B mewn TGAU yn cael ei weithredu yna mae'n bwysig bod y wybodaeth yn cael ei rhannu mewn da bryd. Byddai mwy na blwyddyn (yn dilyn penderfyniad) i baratoi yn rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr nad oes ganddynt raddau B neu uwch ar hyn o bryd gael y graddau hynny, efallai drwy ailsefyll arholiadau. Bydd gweithredu'r newid hwn yn rhy gyflym heb ddigon o rybudd yn arwain at siom ac yn cael ei ystyried yn annheg ymhlith y rheini sy'n gobeithio gwneud cais am gyrsiau hyfforddi athrawon yn y dyfodol agos.
- Rwy'n deall y dyhead i godi safonau ymhlith athrawon ac yn cytuno â hynny, ond mae'n ymddangos yn annheg ar y disgyblion hynny a oedd yn credu bod ganddynt y cymwysterau cywir, yn ôl prosbectws y brifysgol, ond i sylweddoli bod y gofynion wedi'u newid, ond eto nad oedd cyfle iddynt ailsefyll eu harholiadau. Ymddengys mai annhegwch yw hyn yn y bôn a gofynnaf i chi ystyried ehangu'r cyfnod cyn y daw'r gofynion hyn i rym.
- Mewn egwyddor rwy'n cytuno â'r argymhellion, ond mae'r amserlen yn rhy dynn. Mae hyn yn creu sefyllfa sy'n gwbl annheg i fyfyrwyr sydd eisoes wedi dechrau dilyn y llwybrau perthnasol i gyrsiau hyfforddi athrawon.
- Os bwriedir newid gofynion mynediad, oni fyddwch yn cyflwyno'r gofynion diwygiedig fesul cam gan roi'r un cyfle i bob myfyriwr ddilyn graddau prifysgol mewn addysg gynradd? Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 yn glynu wrth y safonau presennol a bydd myfyrwyr sydd am eu dilyn yn ystod 2013/14 o dan

anfantais sylweddol gan y bydd y gofynion mynediad wedi cael eu newid yn ystod proses mynediad UCAS gan olygu nad oes fawr ddim amser, os o gwbl, i baratoi ar gyfer y gofynion mynediad diwygiedig - y gellir ei ddisgrifio'n gwrtais yn achos o 'newid y drefn'.

- Mae'n gwbl annheg ar y rheini yn y chweched ar hyn o bryd na allant ailsefyll pwnc er mwyn cael gradd B mewn da bryd ar gyfer ceisiadau 2013.
- Mae'r amserlen yn rhy fyr o lawer...mae hyn yn creu sefyllfa annheg tu hwnt i fyfyrwyr fel minnau sydd eisoes wedi dechrau dilyn y llwybrau priodol er mwyn cael lle ar gwrs hyfforddi athrawon. Mae'n hanfodol bwysig i mi, ac eraill a fydd yn gwneud cais am le mewn Prifysgol yn 2013, allu gwneud hynny o dan amodau teg.
- Rydym yn sicr y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn effeithio ar nifer fawr o fyfyrwyr yng Nghymru a byddem yn gofyn i ystyriaeth ddifrifol gael ei rhoi i'r sawl y gallent effeithio arnynt. Credwn yn gryf y dylai'r amserlen ar gyfer newid gael ei haddasu yn unol â'r garfan bresennol o fyfyrwyr TGAU, oherwydd byddant mewn sefyllfa i ailsefyll arholiadau TGAU ar gyfer y pynciau gofynnol os bydd angen. Yn ddiau, bydd cynigion presennol yn cosbi myfyrwyr a oedd, tan nawr, yn credu eu bod yn gwneud popeth angenrheidiol i ddilyn eu cwrs Prifysgol dewisol.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

3.68 Mae'n amlwg o'r ymatebion a gafwyd bod nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r amserlen weithredu arfaethedig o ran y mwyafrif o'r cynigion.

3.69 Fel sy'n amlwg o'r sylwadau uchod, y cynnig yr anghytunwyd ag ef fwyaf o ran yr amserlen weithredu oedd y cynnig i newid y safon mynediad ofynnol ar gyfer cyrsiau HCA o'r hyn sy'n gyfwerth â gradd C TGAU i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B.

3.70 Er bod yr amserlen weithredu yn cynnig y byddai'r meini prawf mynediad diwygiedig gyda'r gofynion diwygiedig yn cael eu gweithredu o fis Medi 2013 (ar gyfer mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2013/14), dynododd barn ymatebwyr fod cryn bryder bod yr amserlen hon yn dynn iawn petai'r cynnig i newid y safon mynediad TGAU ofynnol yn cael ei weithredu.

3.71 Ar gyfer cyrsiau HCA israddedig ac ôl-raddedig, mae dyddiadau cau gwneud cais penodol. Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer cyrsiau HCA cynradd ôl-raddedig sy'n dechrau ym mis Medi 2013 erbyn 1af Rhagfyr 2012. Ar gyfer mynediad i Raglenni HCA israddedig sy'n dechrau ym mis Medi 2013, gellir cyflwyno ceisiadau o fis Medi 2012 gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau wedi'u cwblhau ar 15 Ionawr 2013.

3.72 Mae'n glir y bydd diwygio meini prawf mynediad TGAU gofynnol ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 yn cael effaith sylweddol ar y garfan o fyfyrwyr a fydd yn cyflwyno eu ceisiadau HCA rhwng mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013. Cydnabyddwn yr ymateb sylweddol a gafwyd i'r pwynt hwn ynghyd â barn ymatebwyr a danlinellodd y ffaith y bydd gweithredu'r newid hwn heb roi digon o rybudd i ymgeiswyr yn cael ei ystyried yn annheg. Cydnabyddwn hefyd y bydd

Darparwyr HCA eisoes wedi cyhoeddi eu prosbectws prifysgol ar gyfer mynediad i raglenni ym mis Medi 2013, gan nodi'r meini prawf mynediad gofynnol presennol ar gyfer ymgeiswyr.

3.73 O ystyried y cynghorir rhoi mwy o rybudd ynghylch newidiadau arfaethedig i'r meini prawf mynediad TGAU gofynnol - gan ystyried yr amserlen fer rhwng rhoi gwybod am newidiadau i'r meini prawf mynediad gofynnol a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau - byddwn yn gweithredu'r cynigion ar ddau gam.

**3.74 Caiff yr amserlen fel y'i nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ei gweithredu ar gyfer pob cynnig o ran y Gofynion ar gyfer mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2013/14. Yr eithriad i'r amserlen weithredu hon yw'r newidiadau arfaethedig i isafswm y gofynion mynediad TGAU fel y nodir isod.**

**3.75 Cyflwynir newidiadau i'r safon mynediad ofynnol ar gyfer cyrsiau HCA ar gyfer pob hyfforddai o'r hyn sy'n gyfwerth â gradd C TGAU i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn Saesneg a mathemateg o ran mynediad i raglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2014/15.**

3.76 Gofynnwn i Ddarparwyr HCA nodi'r diwygiad i'r amserlen weithredu a cheisio gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r dyddiad y cyflwynir y newidiadau i'r safon mynediad ofynnol.

# 4. Sylwadau cyffredinol

**Cwestiwn 10**

4.1 O dan Gwestiwn 10, cafodd ymatebwyr eu hannog i nodi unrhyw sylwadau ychwanegol y dymunant eu gwneud nad ymdriniwyd â hwy'n benodol o dan y cwestiynau eraill.

4.2 Fel y nodwyd o dan y crynodeb o ymatebion i Gwestiwn 9, cafodd nifer o sylwadau eu gwneud mewn perthynas â'r amserlen weithredu arfaethedig. Codwyd pwyntiau penodol hefyd o ran y cynnig am gyfnod hyfforddi 60 diwrnod sydd wedi'i gynnwys ac yr ymdriniwyd ag ef o dan Gwestiwn 5, a hefyd y cynnig i gynyddu'r safon mynediad ofynnol i'r hyn sy'n gyfwerth â gradd B TGAU. Mae'r sylwadau olaf wedi'u cynnwys ac ymdriniwyd â hwy o dan Gwestiwn 1.

4.3 Lle y bo'n briodol, mae'r sylwadau eraill a gafwyd wedi cael eu dosbarthu o dan y penawdau canlynol;

- Cyfrwng Cymraeg.
- AAA.
- Goblygiadau ehangach.

4.4 Cafwyd nifer o sylwadau eraill mewn ymateb i baragraffau 3.11 - 3.13 o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn cwmpasu cymwysterau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd y rhain nad yw'r Gofynion presennol yn cynnwys isafswm gofyniad statudol ar gyfer mynediad i gyrsiau HCA sy'n arwain at gymhwyster Cymraeg ac nad oedd ychwanegu isafswm gofyniad mynediad ar gyfer cymhwyster Cymraeg yn cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad. Hefyd, nid oedd y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn penodol nac yn ceisio barn ymatebwyr ar isafswm gfyniad mynediad ar gyfer cymhwyster Cymraeg.

4.5 Nododd paragraff 3.11 o'r ddogfen ymgynghori fod ymgynghoriad ar y Gofynion cyn eu cyflwyno yn 2006 yn cynnwys cynnig y dylent ymgorffori rhai gofynion mynediad Cymraeg penodol â safonau a oedd yn cyfateb i'r rhai ar gyfer cyrsiau HCA yn gyffredinol. Yn ymarferol, teimlai llawer y byddai anawsterau ymarferol difrifol wrth fabwysiadu dull o'r fath. Teimlwyd y byddai cyfeirio at safon TGAU Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai hynny a oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ac oedd wedi dysgu wedi hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pryderon am beth yn union fyddai'n cael ei ystyried yn 'gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg', gyda rhai cyrsiau heb gynnwys Cymraeg digonol i gyfiawnhau'r gofyn am sgiliau iaith lefel uchel er mwyn derbyn ymgeiswyr. Roedd pryderon hefyd y byddai gofynion mynediad Cymraeg penodol yn creu rhwystr cyn mynediad i HCA drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.6 Soniodd sawl ymatebydd yn benodol am ofynion mynediad cyfrwng Cymraeg Ymhlith y rhain roedd y canlynol;

- Mae angen ymdrin â llythrennedd a rhifedd ym maes HCA a darpariaeth ysgol ehangach yn Gymraeg a Saesneg yn gadarn. Mae

Llywodraeth Cymru yn wynebu'r risg o orffwys ar ei rhwyfau o ran darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg os oes ganddi ddisgwyliadau is o ymgeiswyr HCA Cymraeg nag ymgeiswyr HCA Saesneg.

- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o rai pryderon anecdotaidd mewn ysgolion cynradd ynghylch galluoedd Cymraeg ail iaith rhai athrawon newydd gymhwyso. Mae'r Cyngor yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth ychwanegol am y mater hwn ac ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o ymdrin â'r mater.
- Mae aelodau UCET Cymru wedi codi pryder ynghylch hepgor gofynion mynediad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er ein bod yn cydnabod y rhesymau a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori, credwn fod angen ystyried materion llythrennedd hyfforddeion Cymraeg. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cymwysterau derbyniol y mae'n rhaid i hyfforddeion eu cael yn Gymraeg, naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith. Rhaid i hyfforddeion allu profi bod eu Cymraeg o safon dderbyniol, yn enwedig os ydynt yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r cynigion hyn yn codi materion cymhleth o ran ymgeiswyr a hyfforddeion Cymraeg. Er bod angen i'r gofynion adlewyrchu statws cyfartal y ddwy iaith yng Nghymru a rhoi'r un cyfleoedd i ymgeiswyr Cymraeg mae hefyd angen iddynt ganiatáu ar gyfer digon o geisiadau cyfrwng Cymraeg.
- Mae perygl y bydd ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg sydd â graddau TGAU da iawn yn eu hiaith gyntaf (Cymraeg) ond dim ond C yn eu hail iaith (Saesneg) yn cael eu hatal rhag hyfforddi i fod yn athrawon. I'r gwrthwyneb, gall diwygio'r gofynion i gynnwys gradd B TGAU yn yr iaith Gymraeg i ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg arwain at lai o geisiadau ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn enwedig o ran mathemateg a gwyddoniaeth uwchradd.
- Fel mater o egwyddor, dylai'r nod o wella safonau ysgolion drwy wella sgiliau llythrennedd a rhifedd personol hyfforddeion fod yr un mor gymwys mewn perthynas â llythrennedd yn Gymraeg ag yw i Saesneg a rhifedd.
- Mae a wnelo Nod Strategol 4 o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg â sicrhau bod gweithlu digonol sydd â sgiliau Cymraeg o ansawdd uchel a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu. Yn ogystal â hyn, un o brif amcanion y Strategaeth o dan Nod Strategol 3 yw codi safonau o ran addysgu a dysgu Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Felly, er mwyn sicrhau eich bod yn cyflawni'r hyn a amlinellir yn nod strategol 3 a 4 o'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg, dylid bod wedi cynnwys cynigion cadarn yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer profi llythrennedd yn Gymraeg. Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y cynigion o ran cymorth a nodir yn 3.12 a 3.13 yn arwain at y gallu i wella llythrennedd yn Gymraeg mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod ansawdd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfateb i'r Saesneg?
- Anghytuno'n gryf â'r gofyniad presennol a'r gofyniad arfaethedig am nad yw'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Ar wahân i ofyn am radd B yn hytrach na gradd C, dylai'r safon mynediad ofynnol gynnwys C (neu B) mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae rhoi statws cyfartal o

ran yr amod hwn yn wahanol i'r cymhlethdodau a nodir ym mharagraff 3.11 o'r ddogfen ymgynghori. Mae'r un egwyddor yn gymwys i bob cyfeiriad at safonau llythrennedd hyfforddeion ar y pwynt mynediad, yn ystod yr hyfforddiant ac ar ei ddiwedd.

4.6 O ran AAA, tynnodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar sylw at y canlynol;

- Bydd plant sydd wedi colli eu clyw yn wynebu heriau penodol o ran dysgu a meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn arbennig, gall agweddau ar y dull ffoneg o addysgu llythrennedd beri anawsterau i blant a phobl ifanc fyddar.
- Nodwn y cynnig am ofyniad newydd i ddarparwyr HCA er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael hyfforddiant ym maes addysgu llythrennedd a rhifedd. Byddai NDCS Cymru yn annog athrawon sy'n cael yr hyfforddiant hwn i ddod yn ymwybodol o'r ffaith y gall disgyblion byddar wynebu heriau penodol wrth feithrin y sgiliau hyn, a'u bod yn cael eu hatgyfeirio at adnoddau a gwybodaeth bellach.
- Ym marn NDCS Cymru, byddai'n fuddiol iawn cynnwys peth ymwybyddiaeth sylfaenol o fyddardod o fewn HCA. Wrth gwrs, ni fyddem yn disgwyl i athrawon sy'n cael Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ddod yn arbenigwyr ym maes byddardod, ond teimlwn y gallai lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth ynghyd ag atgyfeiriadau at wybodaeth bellach wneud cyfraniad sylweddol at wella ymwybyddiaeth o fyddardod mewn ysgolion.

4.7 Goblygiadau ehangach

- Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi *y byddai hefyd yn cyflwyno (hyfforddiant yn ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd) fel maes i Estyn ymdrin ag ef yn benodol yn ei arolygiad o ddarpariaeth HCA.* Er eglurder, mae'r canllawiau ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol athrawon, yng nghwestiwn allweddol 1, eisoes yn nodi y bydd arolygwyr yn adrodd ar ansawdd sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh personol hyfforddeion a pha mor dda y mae hyfforddeion yn cymhwyso'r sgiliau hyn yn eu gwaith cwrs ac addysgu.
- Beth a wneir i annog y rheini â sgiliau llythrennedd a rhifedd lefel uchel i gyflawni rolau dylanwadol ym maes addysgu?
- Pa ofynion llythrennedd a rhifedd fydd yn gymwys i'r gweithlu cynorthwyo athrawon ehangach? Cânt hwy hefyd effaith fawr ar ddysgu plant.
- Ar ôl adolygu safonau Sefydlu, Arwain a CALU yng Nghymru yn 2011, nododd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu adolygu'r Safonau SAC ar y cam hwnnw. Fodd bynnag, penderfynwyd adolygu'r Safonau SAC fel rhan o adolygiad mwy sylfaenol o safonau proffesiynol maes o law. Mae'r Cyngor yn gwahodd Llywodraeth Cymru i gadarnhau pryd y cynhelir yr adolygiad hwn.
- Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn hollbwysig ac yn fwyaf effeithiol pan gaiff addysgeg, cynnwys pynciau a gweithdrefnau rheoli yn

yr ystafell ddosbarth eu hystyried gyda'i gilydd, yn hytrach nag ar wahân. I danlinellu pwysigrwydd DPP mae angen gweithredu system cymhellion a llwybrau datblygu clir mewn addysg e.e. dod yn athrawon siartredig, athrawon arbenigol ac ati. Yn y Ffindir, sy'n cyrraedd yr uchelfannau'n gyson wrth gymharu rhifedd ar lefel ryngwladol, y cymhwyster safonol ar gyfer athrawon yw gradd Feistr ac argymhellwn y dylid cyflwyno hyn yng Nghymru hefyd. Mae hyn hefyd yn debygol o gael effaith gadarnhaol fawr ar addysgu pynciau eraill, yn enwedig gwyddoniaeth.

*Sut rydym yn bwriadu ymdrin â'r pwyntiau hyn?*

4.8 Er ein bod yn nodi'r sylwadau a gafwyd ynghylch cymwysterau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel yr amlygwyd ym mharagraffau 3.11 a 3.13 o'r ddogfen ymgynghori, nid ydym yn bwriadu cynnwys isafswm gofyniad mynediad statudol ar gyrsiau HCA ar gyfer cymhwyster yn Gymraeg.

4.9 Mae'n amlwg bod ystod o ddarpariaeth HCA ar gael lle mae cyrsiau cwbl Cymraeg ar un pen a chyrsiau cwbl Saesneg ar y pen arall, ond yn y canol ceir amrywiaeth o ddarpariaeth Gymraeg o fewn cyrsiau. Gall amrywiadau gynnwys, er enghraifft, rhaglen mireinio iaith ychwanegol i rai myfyrwyr, cyrsiau â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, rhai ond nid holl elfennau rhan prifysgol y cwrs a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfleoedd i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg, lleoliadau addysgu ymarferol yn un ond nid o reidrwydd y ddau brofiad ysgol gofynnol mewn ysgol Gymraeg, a lleoliadau addysgu ymarferol yn cael eu hystyried yr un mor ddilys mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion dwyieithog neu ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg.

4.10 Fel y nodwyd, bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan weithio gyda Chanolfannau HCA, yn gweithio tuag at baratoi cynllun datblygu ar gyfer HCA cyfrwng Cymraeg a ymgorfforir yng nghynllun academaidd cyffredinol y Coleg. Hefyd, o fewn ei strwythurau, mae'r Coleg yn sefydlu panel i ystyried materion sy'n berthnasol i HCA cyfrwng Cymraeg.

4.11 O ran HCA cyfrwng Cymraeg uwchradd, mae'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn rhoi cymorth ychwanegol i hyfforddeion sy'n gwneud hyfforddiant cychwynnol athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnig rhaglen gynhwysfawr i hyfforddeion wella eu sgiliau a'u gallu addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.12 O dan y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, mae pob ymgeisydd yn cwblhau archwiliad o'i sgiliau Cymraeg ar ddechrau'r rhaglen er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn addas i gofrestru a gwerthusir sgiliau hanner ffordd ac ar ddiwedd y rhaglen i fonitro lefel y gwelliant ieithyddol.

4.13 Rydym wrthi'n gwerthuso cynnydd yn y meysydd datblygu hyn. Nid oedd p'un a ddylid cynnwys isafswm gofyniad mynediad statudol ar gyrsiau HCA ar gyfer cymhwyster yn Gymraeg yn gynnig penodol yn yr ymgynghoriad hwn. Fel y cyfryw, bydd angen ymgynghori ymhellach ar unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes hwn, fel bod modd cael ymatebion penodol ar y mater hwn.

4.14 Nodwn y sylwadau a wnaed gan Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru, yn arbennig bydd plant sydd wedi colli eu clyw yn wynebu heriau penodol o ran dysgu a meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn arbennig, gall agweddau ar y dull ffoneg o addysgu llythrennedd beri anawsterau i blant a phobl ifanc fyddar.

4.15 Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynghylch datblygu cynnwys HCA i gynnwys ymwybyddiaeth sylfaenol o fyddardod o fewn HCA, er y nodir na all cynnwys cyrsiau HCA gwmpasu pob maes a phwnc yn benodol, ymgorfforir AAA yn Safonau SAC, sef y datganiadau canlyniadol y mae'n rhaid i bob hyfforddai HCA eu bodloni cyn iddynt gael SAC.

4.16 Cyfeirir at Safon S2.6 Anghenion Addysgol Arbennig sy'n nodi;

> *'Eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan God Ymarfer AAA Cymru ac yn gwybod sut i geisio cyngor gan arbenigwyr ar fathau llai cyffredin o anghenion addysgol arbennig'.*

Hefyd Safon S3.3.4 Addasu addysgu sy'n nodi;

> *'Eu bod yn addasu eu haddysgu er mwyn bodloni anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf galluog a dawnus, a'r rheini ag anghenion addysgol arbennig. Gallant gael cyfarwyddyd gan athro profiadol pan fo hynny'n briodol.'*

4.17 Ceir Safonau SAC eraill sydd er enghraifft yn ystyried amrywiaeth a chyfle cyfartal.

4.18 Fel y nodwyd o dan baragraff 3.47 o ran adolygu HCA, rhagwelir y bydd strwythur y cwrs HCA a'r materion a gwmpesir yn cael eu hystyried o dan yr adolygiad, gan gynnwys p'un a gaiff pynciau ddigon o amser neu gwmpas ar gyrsiau HCA.

4.19 Byddwn yn aros i glywed canfyddiadau'r adolygiad cyn mynd ati i ystyried datblygiadau pellach o ran y Safonau SAC neu gyrsiau HCA.

4.20 O ran y sylwadau eraill a wnaed, cafodd safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2011. Diben y safonau proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALUau), athrawon ac arweinwyr yw codi safonau addysgu a gwella canlyniadau dysgwyr ledled Cymru.

4.21 O dan y pennawd Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol noda'r safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer CALUau yng Nghymru fod yn rhaid i'r rheini â statws CALU fod wedi cyrraedd lefel 2 (neu uwch) o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn Gymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf)/llythrennedd a mathemateg/rhifedd.

4.22 Rhaid i athrawon gyrraedd Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (SAG) ar ddiwedd y cyfnod sefydlu a pharhau i'w cyrraedd drwy gydol eu gyrfa addysgu. O ran

Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol, rhaid i athrawon ddeall eu rôl yn gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

4.23 Rydym yn bwriadu gwerthuso'r Safonau newydd ar gyfer Athrawon wrth eu Gwaith dros gyfnod o dair blynedd ar ôl eu lansio, er mwyn pennu eu defnydd fel adnodd i gefnogi gwaith rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol a gwella safonau addysgu, ochr yn ochr â'r agenda gwella ysgolion ehangach. Disgwylir i'r gwerthusiad hwn lywio adolygiad mwy sylfaenol o'r holl safonau proffesiynol, gan gynnwys Safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC).

4.24 Cafodd Safonau SAC eu diwygio'n sylweddol yn 2006, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar ddau gam. Yna, mireiniwyd Safonau SAC yn 2009 er mwyn adlewyrchu diwygiadau i'r cwricwlwm ysgol a diweddaru cyfeiriadau deddfwriaethol a chyfeiriadau eraill. Bydd angen i unrhyw adolygiad pellach o Safonau SAC ystyried sut maent yn gysylltiedig â Safonau Athrawon wrth eu Gwaith er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn dod yn athrawon newydd gymhwyso mewn modd synhwyrol.

4.25 Ar 23 Tachwedd 2011, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn datganiad ysgrifenedig y byddai pob ANG, o fis Medi 2012, yn cael y cyfle i ddilyn rhaglen Feistr fel rhan o'i Gyfnod Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Bydd elfennau allweddol y rhaglen Feistr yn cynnwys modiwlau datblygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyfredol o arfer effeithiol o Gymru a thu hwnt. Byddant yn canolbwyntio ar y tair blaenoriaeth genedlaethol sef llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad; yn ogystal â thri maes craidd ychwanegol a nodwyd yn flaenoriaethau ar gyfer ANGau. Ceir anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad ac ymarfer myfyriol. Ar ôl cyflwyno'r rhaglen Feistr ar gyfer y Cyfnod Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ym mis Medi 2012, caiff cymwysterau Meistr eu datblygu i ymarferwyr ar gamau gwahanol yn eu gyrfa, yn enwedig i'r rhai sy'n anelu at gyflawni rôl arwain.

4.26 Nodwn y pwynt eglurhaol gan Estyn o ran y canllawiau ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol athrawon.

## 5. Y camau nesaf

5.1 Caiff y Meini Prawf newydd neu'r Cynllun Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2012 ("Meini prawf achredu 2012") eu llunio gan Weinidogion Cymru maes o law. Bydd y meini prawf achredu newydd ar gyfer Darparwyr HCA yn nodi'r Gofynion statudol diwygiedig ar gyfer Darparu cyrsiau HCA.

5.2 Daw meini prawf achredu 2012 i rym ar 1 Medi 2013 ar gyfer dilyn Rhaglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2013/14, ac eithrio'r Gofyniad sy'n diwygio'r safon mynediad ofynnol o'r hyn sy'n gyfwerth â TGAU Gradd C yn Saesneg a mathemateg, i'r hyn sy'n gyfwerth â TGAU Gradd B, a ddaw i rym ar 1 Medi 2014, ar gyfer dilyn Rhaglenni HCA ym mlwyddyn academaidd 2014/15.

5.3 Bydd Gofynion tebyg yn gymwys i Gynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2012, ynghyd â newidiadau penodol yr ymgynghorwyd arnynt eisoes ar wahân yn gynharach eleni. Bydd amserlen debyg ar gyfer cyflwyno'r newidiadau yn gymwys i'r ddau lwybr addysgu.

5.4 Byddwn yn ailystyried ac yn atgyfnerthu'r Cylchlythyr Cyfarwyddyd Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau (017/2009) o ran Adran 2 - Gofynion Darparu Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gyda'r bwriad o gyflwyno canllawiau newydd ar gyfer Adran 2. Disgwyliwn i'r canllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi maes o law.

5.5 Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i fonitro'r broses o weithredu'r Gofynion diwygiedig a darparu canllawiau ychwanegol fel y bo angen.

## Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Mark Gunn - Ysgol Gynradd Undy

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

NUT Cymru

D H Roberts

Lynda Maddock – Prifysgol Fetropolitan Abertawe

P Jones

M O Williams

Ysgol Addysg Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

CCAUC

Dr Jane Waters – Pennaeth Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol i Athrawon, Prifysgol Fetropolitan Abertawe

UCAC

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Prifysgol Cymru, Casnewydd

Estyn

UCET Cymru

H Blackwell

D Jones

Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru

M Price

E Price

CYDAG

E M Davies

E M Jones

Alun Ffred Jones AC

NAHT Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Y Cyngor Astudiaethau Maes

Y Sefydliad Ffiseg yng Nghymru

T Jones